OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1896 (Cy.180)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Abertawe) 2008

Gwnaed - - - - 15 Gorffennaf 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 17 Gorffennaf 2008
Yn dod i rym - - 1 Medi 2008

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn hwn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Abertawe) 2008 a daw i rym ar 1 Medi 2008.

Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

2. Mae Gweinidogion Cymru'n dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(**1**) 2004 p.18.
(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).